# Adolygiad o'r Côd Darlledu

## Datganiad ar Gôd Darlledu Ofcom

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi: 16 Rhagfyr 2009

# Cynnwys


| Rhan | | Tudal en |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb Gweithredol | 3 |

**Rhan 1**

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

1.1 Y ddogfen hon yw'r datganiad rheoleiddio terfynol ar newidiadau i reolau Côd Darlledu Ofcom ("y Côd") ar ddeunyddiau rhywiol a chystadlaethau a phleidleisio a ddarlledir. Mae'n dilyn yr Ymgynghoriad ynghylch Adolygiad o'r Côd Darlledu (15 Mehefin i 4 Medi 2009) a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r ddogfen ymgynghori sydd ar gael yn http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/bcôde09/main.pdf <http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/bcode09/main.pdf>. Yn ogystal â hynny, mae Côd diwygiedig 2009 ar gael yn <http://www.ofcom.org.uk/tv/ifi/codes/bcode/>. Mae'r Côd 2009 yn berthnasol i raglenni sy'n cael eu darlledu ar neu ar ôl 16 Rhagfyr 2009.

1.2 Fel rhan o'i ddyletswyddau a'i swyddogaethau yng nghyswllt darlledu dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"), rhaid i Ofcom lunio ac, o bryd i'w gilydd, adolygu côd ar gyfer gwasanaethau teledu a radio, sy'n edrych ar safonau mewn rhaglenni (sy'n cynnwys amddiffyn pobl dan 18 oed a defnyddio safonau a dderbynnir yn gyffredin i amddiffyn y cyhoedd rhag darlledu deunyddiau niweidiol a thramgwyddus), nawdd a thegwch a phreifatrwydd. Daeth Côd Darlledu Ofcom ("y Côd") i rym ar 25 Gorffennaf 2005 ar ôl cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ac ymchwil helaeth yn ystod 2004.

1.3 Roedd Ofcom wedi gwneud ymrwymiad yng Nghynllun Blynyddol 2008/9[1] i adolygu'r Côd ac ystyried a oedd yn dal yn adlewyrchu'r defnyddiwr, y diwydiant ac amgylcheddau rheoleiddio. Er mwyn deall datblygiadau yn y meysydd hyn er 2005 roeddem wedi ystyried y canlynol:

- **achosion uchel eu proffil o fethu cydymffurfio** (yn bennaf yng nghyswllt cystadlaethau a phleidleisio a deunyddiau rhywiol);
- **trafodaethau cyn ymgynghori** â rhanddeiliaid (gan gynnwys darlledwyr a chynrychiolwyr grwpiau defnyddwyr);
- **ymchwil defnyddwyr** (yng nghyswllt radio masnachol ac yng nghyswllt deunyddiau rhywiol); a,
- **newid deddfwriaethol** yn benodol gofynion Cyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol y Comisiwn Ewropeaidd (AVMS) y mae'n rhaid ei rhoi ar waith yn neddfwriaeth y DU erbyn 19 Rhagfyr 2009 ac sy'n arwain at nifer o newidiadau gorfodol i'r Côd (gweler isod ym mharagraff 1.4).

1.4 Yng ngoleuni'r ystyriaethau hyn, roeddem wedi dynodi rhai adrannau o'r Côd lle'r oeddem yn credu bod eisiau diwygiadau wedi'u targedu ac ymgynghorwyd ynghylch newidiadau arfaethedig[2]. Dyma'r prif newidiadau rydym yn eu gwneud ar ôl yr Ymgynghoriad, ac sydd wedi'u hadlewyrchu yng Nghôd 2009:

- **Set gliriach o reolau ar ddeunydd rhywiol yn Adran Un y Côd** (Amddiffyn Pobl Ifanc dan Ddeunaw), fel y trafodir yn Rhan 3. Nid yw'r rheolau yn

[1] http://www.ofcom.org.uk/about/accoun/reports_plans/annual_plan0809/
[2] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/bcode09/main.pdf

adlewyrchu unrhyw newid yn y ffordd y mae Ofcom yn rheoleiddio, ond mae'r rheolau wedi cael eu cynllunio i egluro:

- o Ni chaniateir deunydd sy'n cyfateb i ddosbarthiad R18 Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain ("BBFC");
- o Mae 'deunydd rhyw ar gyfer oedolion' yn amodol ar fynediad cyfyngedig gorfodol[3] (caiff 'deunydd rhyw ar gyfer oedolion' ei ddisgrifio fel deunydd o natur rywiol gref a ddarlledir at y prif ddiben o gynhyrfu a chyffroi pobl yn rhywiol);
- o Rhaid cyfiawnhau yn ei gyd-destun ddarlledu deunyddiau sy'n amlwg o natur rywiol gref (heblaw am 'ddeunydd rhyw ar gyfer oedolion') ar ôl y trothwy; a
- o Rhaid cyfyngu'n briodol ar ddeunydd o natur rywiol cyn y trothwy.

- **Set gliriach o reolau ar gystadlaethau a phleidleisio yn Adran Dau** (Niwed a Thramgwydd), fel y trafodir yn Rhan 4 y ddogfen hon er mwyn egluro:
  - o rhaid i gystadlaethau a phleidleisio a ddarlledir cael eu cynnal yn deg;
  - o rhaid amddiffyn gwylwyr a gwrandawyr rhag niwed.

- **Diwygiadau i Adran Naw (Nawdd) ac Adran Deg y Côd (Cyfeiriadau Masnachol),** fel y trafodir yn Rhan 5 y ddogfen hon.
  - o Nodyn: Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth ar leoli cynnyrch[4] (gweler y manylion yn Rhan 5 y ddogfen hon), estynnwyd yr Adolygiad o'r Côd yng nghyswllt Adrannau Naw a Deg y Côd.

- **Newidiadau gorfodol i'r Côd (a'r Côd Trawshyrwyddo[5]) o ganlyniad i'r Gyfarwyddeb AVMS**.
  - o Mae'r Gyfarwyddeb AVMS y cyfeirir ati uchod yn diwygio ac yn diweddaru'r Gyfarwyddeb Teledu Heb Ffiniau ("TWF"). Mae pob cyfeiriad at y Gyfarwyddeb TWF yn y Côd wedi cael ei ddisodli gan gyfeiriadau at y Gyfarwyddeb AVMS.
  - o Ar ben hynny, mae Adran Deg y Côd wedi cael ei diwygio, yn unol â'r Gyfarwyddeb AVMS yng nghyswllt lleoli cynnyrch mewn rhaglenni plant a brynir. Trafodir hyn yn Rhan 5 y ddogfen hon.

## Rheolau ar ddeunyddiau rhywiol a chystadlaethau a phleidleisio a ddarlledir

1.5 Cafodd Ofcom 238 o ymatebion i'w gynigion ar y rheolau yng nghyswllt deunydd o natur rywiol (yn cynnwys grŵp o 64 o ymatebwyr, a grŵp pellach o 27 o ymatebwyr, wnaeth datgan barn debyg neu'r union fath). Derbyniodd Ofcom hefyd 35 o ymatebion yn ymwneud â'i reolau arfaethedig ar gystadlaethau a phleidleisio a ddarlledir. Mae'r

[3] Trafodir mynediad cyfyngedig gorfodol ym mharagraffau 3.55 i 3.58.
[4] http://www.culture.gov.uk/reference_library/minister_speeches/6194.aspx
[5] **http://www.ofcom.org.uk/tv/ifi/codes/bcode/crosspromo/**

ymatebion gan yr unigolion a'r sefydliadau hynny nad oeddent wedi gofyn am gyfrinachedd wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Ofcom[6].

1.6 Roedd yr ymatebion yn amrywiol ond, at ei gilydd, gellir eu rhannu i'r categorïau canlynol:

- Ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynigion.
- Ymatebwyr a oedd yn cytuno'n gyffredinol â'r cynigion ond yn amodol ar rai diwygiadau a/neu ganllawiau.
- Ymatebwyr a oedd yn croesawu'r cynigion yn ddiamod.

1.7 Wrth ymateb i'r Ymgynghoriad ac wrth baratoi'r Datganiad hwn, rydym wedi ystyried pob un o'r ymatebion. Pan mae'n briodol, rydym wedi ailddrafftio'r rheolau arfaethedig a/neu wedi cynnig canllawiau. Wrth wneud hynny rydym wedi ystyried dyletswydd Ofcom i sicrhau ei amcanion statudol dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac i gydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Fel y trafodir isod dan 'Agwedd at asesu'r effaith', dim ond er mwyn bod yn eglur y caiff hwn ei ailddrafftio ac nid yw'n newid agwedd rheoleiddio Ofcom o gwbl.

1.8 Caiff ein hagwedd at bob un o'r rheolau a gynigir ac at awgrymiadau rhanddeiliaid ar gyfer agweddau eraill ei rhoi yn Rhan 3 (yng nghyswllt deunydd rhywiol) ac yn Rhan 4 (yng nghyswllt cystadlaethau a phleidleisio). Mae Rhan 3 hefyd yn egluro ein hagwedd at ystyr "mynediad cyfyngedig gorfodol" a diwygiadau cysylltiedig i'r rheolau yn adran 'Ffilmiau' Adran Un y Côd.

1.9 Nid yw'r grŵp newydd o reolau yng nghyswllt deunydd rhywiol, a gyhoeddir yng Nghôd diwygiedig 2009, fel y nodir uchod, ddim yn newid agwedd rheoleiddio Ofcom o gwbl. Yn hytrach, bwriad y rheolau yw gwella eglurder a cheisio lleihau'r peryglon y caiff deunyddiau eu darlledu a fydd yn torri'r Côd, ac maent yn dod â chanllawiau. Mae'r rheolau newydd yn y Côd fel y ganlyn:

**Rhyw**

1.17 Ni chaniateir darlledu deunydd sy'n cyfateb i ddosbarthiad R18 Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain ("BBFC") ar unrhyw adeg.

1.18 Ni chaniateir darlledu 'deunydd rhyw ar gyfer oedolion' - rhaglenni sy'n cynnwys delweddau neu iaith o natur rywiol gref sy'n cael eu darlledu'n bennaf ar gyfer cynhyrfu neu gyffroi pobl yn rhywiol – ar unrhyw adeg heblaw rhwng 2200 a 0530 ar wasanaethau premiwm i danysgrifwyr a gwasanaethau talu fesul noson/talu wrth wylio sy'n gweithredu gyda mynediad cyfyngedig gorfodol.

Ar ben hynny, rhaid rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod y tanysgrifiwr yn oedolyn.

**Ystyr "mynediad cyfyngedig gorfodol"**
Mae mynediad cyfyngedig gorfodol yn golygu system sy'n cael ei diogelu gan rif adnabod personol (PIN), neu amddiffyniad cyfatebol arall, na all y defnyddiwr gael gwared arni, sy'n cyfyngu mynediad i'r rhai sydd wedi'u hawdurdodi i wylio'n unig.

[6] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/bcode09/responses/

1.19 Rhaid i ddarlledwyr sicrhau bod y cyd-destun yn cyfiawnhau deunydd a ddarlledir ar ôl y trothwy sy'n cynnwys delweddau a/neu iaith o natur rywiol gref neu benodol, ond nad yw'n 'ddeunydd rhyw ar gyfer oedolion' fel y'i diffinnir yn Rheol 1.18 uchod.

(Gweler Rheolau 1.6 ac 1.18 a Rheol 2.3 yn Adran Dau: Niwed a Thramgwydd, sy'n cynnwys ystyr "cyd-destun".)

1.20 Rhaid peidio â darlledu portreadau o gyfathrach rywiol cyn y trothwy (yn achos teledu) neu pan yw plant yn neilltuol o debygol o wrando (yn achos radio), oni bai fod pwrpas addysgol difrifol dros wneud hynny. Rhaid bod cyfiawnhad golygyddol dros unrhyw drafodaeth ar ymddygiad rhywiol, neu bortread ohono, os caiff ei gynnwys cyn y trothwy, neu pan yw plant yn neilltuol o debygol o wrando, a rhaid cyfyngu arno mewn modd priodol.

1.10 Unwaith eto, fel y nodir uchod, nid yw'r grŵp newydd o reolau yng nghyswllt cystadlaethau a phleidleisio a ddarlledir, a gyhoeddir yng Nghôd diwygiedig 2009, ddim yn newid agwedd rheoleiddio Ofcom o gwbl. Yn hytrach, bwriad y rheolau yw gwella eglurder a cheisio lleihau'r peryglon y caiff deunyddiau eu darlledu a fydd yn torri'r Côd, ac maent yn dod â chanllawiau. Mae'r rheolau newydd yn y Côd fel y ganlyn:

Cystadlaethau a ddarlledir a phleidleisio

2.13 Rhaid i gystadlaethau a phleidleisio a ddarlledir cael eu cynnal yn deg.

2.14 Rhaid i ddarlledwyr sicrhau nad yw gwylwyr a gwrandawyr yn cael eu camarwain yn sylweddol am unrhyw gystadleuaeth neu bleidleisio a ddarlledir.

2.15 Rhaid i ddarlledwyr lunio rheolau ar gyfer gystadleuaeth neu bleidlais a ddarlledir sy'n cael ei ddarlledu, a rhaid i'r rheini fod yn glir ac wedi'u datgan mewn modd priodol. Yn benodol, rhaid datgan yr amodau pwysig a all effeithio ar benderfyniad gwrandäwr neu wyliwr i gyfrannu ar yr adeg y darlledir gwahoddiad i gyfrannu.

2.16 Rhaid disgrifio gwobrau cystadlaethau a ddarlledir yn gywir.

(Gweler hefyd Rheol 1.30 yn Adran Un: Diogelu'r Rhai dan Ddeunaw Oed, sy'n ymdrin â darparu gwobrau priodol i blant.)

**Sylwer**:
Yng nghyswllt cystadlaethau a phleidleisio a ddarlledir sy'n cynnwys y defnydd o wasanaethau ffôn ar y gyfradd premiwm, dylai darlledwyr gyfeirio hefyd at Reolau 10.9 a 10.10.

**Ystyr "cystadleuaeth a ddarlledir":**
Cystadleuaeth neu gyfle i ennill gwobr ar raglen lle mae gwylwyr neu wrandawyr yn cael eu gwahodd i gystadlu drwy unrhyw ffordd am y cyfle i ennill gwobr.

**Ystyr "pleidleisio":**
Mae'n digwydd mewn rhaglen lle mae gwylwyr neu wrandawyr yn cael eu gwahodd i gofrestru pleidlais drwy unrhyw ffordd er mwyn penderfynu neu ddylanwadu ar ganlyniad cystadleuaeth, ar unrhyw gam.

## Cyfeiriadau masnachol

1.11 Caiff materion sy'n ymwneud ag Adran Naw y Côd (nawdd) ac Adran Deg (cyfeiriadau masnachol) eu trafod yn Rhan 5 y ddogfen hon.

1.12 Roedd yr Ymgynghoriad yn cynnig newid llawer ar Adrannau Naw a Deg y Côd (yng nghyswllt nawdd a chyfeiriadau masnachol). Fodd bynnag, ar ôl cau'r ymgynghoriad, ar 16 Medi 2009, cyhoeddodd y Llywodraeth[7] ei bod yn bwriadu, yn amodol ar ymgynghoriad[8], caniatáu lleoli cynnyrch mewn rhaglenni teledu a gynhyrchir yn y DU.

1.13 Penderfynodd Ofcom felly y byddai'n ymestyn ei adolygiad o'r Côd Darlledu[9] er mwyn ystyried unrhyw ganlyniad posib i ymgynghoriad y Llywodraeth a'r goblygiadau potensial ehangach unrhyw newid yn y maes hwn ar reolau eraill sy'n ymwneud â chyfeiriadau masnachol ar raglenni teledu a radio, gan gynnwys y rheolau sy'n ymwneud â nawdd. Yn dilyn canlyniad ymgynghoriad y Llywodraeth ar leoli cynnyrch, sy'n cau ar 8 Ionawr 2010, bydd Ofcom yn ymgynghori ar unrhyw gynigion newydd ar gyfer diwygio Adrannau Naw a Deg.

1.14 Ar ben hynny, mae Adran Deg y Côd wedi cael ei diwygio yng nghyswllt lleoli cynnyrch mewn rhaglenni plant a brynir[10]. Ar 19 Rhagfyr 2009, dan y Gyfarwyddeb AVMS, mae lleoli cynnyrch wedi cael ei wahardd ym mhob rhaglen blant a gynhyrchir ar ôl y dyddiad hwn ac a drosglwyddir ar unrhyw wasanaeth sy'n dod dan awdurdodaeth y DU. Mae Ofcom felly wedi diwygio'r Côd i adlewyrchu'r sefyllfa hon o fewn 'Ystyr lleoli cynnyrch' yn Adran 10. Rydym hefyd wedi drafftio canllawiau ar gyfer darlledwyr ynghylch sut mae cydymffurfio â'r gofyniad newydd. Caiff hyn ei drafod ym mharagraffau 5.5 i 5.9 isod.

1.15 Ystyr " lleoli cynnyrch" sy'n dilyn Rheol 10.5 yn Adran Deg y Côd bellach yw:

> 10.5 Gwaherddir lleoli cynnyrch
>
> **Ystyr "lleoli cynnyrch":**
>
> Lleoli cynnyrch yw cynnwys neu gyfeirio at gynnyrch neu wasanaeth mewn rhaglen yn gyfnewid am daliad neu gydnabyddiaeth werthfawr arall i wneuthurwr neu ddarlledwr y rhaglen (neu unrhyw un sy'n cynrychioli neu sydd â chysylltiad â'r naill neu'r llall).

---

[7] http://www.culture.gov.uk/reference_library/minister_speeches/6194.aspx

[8] Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 8 Ionawr 2010 ac mae ar gael yn http://www.culture.gov.uk/reference_library/consultations/6421.aspx

[9] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/bcode09/extension/

[10] Mae rhaglenni plant yn y cyd-destun hwn yn golygu rhaglenni a gomisiynir ar gyfer, neu a gyfeirir yn benodol at, gynulleidfaoedd dan 16 oed.

Lleoli propiau: At ddibenion y rheol hon, ni fydd cyfeiriadau at gynhyrchion neu wasanaethau a gafwyd am ddim, neu am lai na'r pris llawn, os oes cyfiawnhad golygyddol dros eu cynnwys yn y rhaglen, yn cael eu hystyried yn lleoli cynnyrch. Ar y teledu, ceir cynnwys cydnabyddiaeth fer a syml i ddarparwr y cynnyrch neu'r gwasanaethau hyn yn y credydau ar ddiwedd y rhaglen. Ni fydd hyn ond yn cael ei ganiatáu os nad yw enw'r cynnyrch yn amlwg fel arall yn y rhaglen ei hun.
Rhaglenni a brynir: Heblaw am raglenni plant a gynhyrchir ar ôl 19 Rhagfyr 2009, nid yw Rheol 10.5 yn berthnasol i drefniadau ynghylch cynnwys cynnyrch neu wasanaethau mewn rhaglen a gafwyd o'r tu allan i'r DU a ffilmiau a wnaed i'r sinema ar yr amod na fydd unrhyw ddarlledwr a reolir gan Ofcom ac sy'n gysylltiedig â darlledu'r rhaglen neu ffilm honno'n cael budd uniongyrchol o'r trefniant.

Mae rhaglenni plant yn y cyd-destun hwn yn golygu rhaglenni a gomisiynir ar gyfer, neu a gyfeirir yn benodol at, gynulleidfaoedd dan 16 oed.

Dylai darlledwyr wybod y bydd yn rhaid i bob rhaglen neu ffilm a brynir cydymffurfio serch hynny â holl reolau perthnasol eraill y Côd hwn. O ran cyfeiriadau at gynnyrch a gwasanaethau mewn rhaglenni a brynir a allai fod wedi deillio o drefniadau masnachol, dylai darlledwyr roi sylw arbennig i ofynion Adrannau Un, Dau a Deg o'r Côd.

1.16 Dylai rhanddeiliaid hefyd nodi bod y rheolau yng nghyswllt gwasanaethau cyfradd premiwm yn Adran Deg y Côd yn amodol ar ymgynghoriad ar Deledu Cyfranogiad. Caiff hyn ei drafod isod ym mharagraffau 5.10 i 5.14).

## Adrannau o'r Côd lle na chynigiwyd dim diwygiadau

1.17 Roedd yr Ymgynghoriad yn egluro bod Ofcom wedi adolygu'r Côd yn ei gyfanrwydd ac wedi penderfynu mai dim ond rhai rhannau roedd angen eu newid ar hyn o bryd. Roeddem wedi gwahodd rhanddeiliaid i awgrymu adrannau eraill o'r Côd y dylid hefyd eu diwygio yn eu barn nhw. Roeddem hefyd wedi gwahodd rhanddeiliaid i awgrymu unrhyw rannau lle byddai diweddaru canllawiau'r Côd yn ddefnyddiol er mwyn helpu i ddehongli a defnyddio'r Côd.

1.18 Mae Rhan 6 y ddogfen hon yn cynnwys manylion ymatebion y rhanddeiliaid. Mae Rhan 6 hefyd yn egluro ystyriaeth Ofcom o'r ymatebion gan gynnwys ceisiadau i ddiwygio canllawiau cyfredol.

## Ymchwil defnyddwyr

1.19 Cafodd ymchwil ystyriol ac ansoddol i agweddau defnyddwyr at ddeunyddiau rhywiol a chyfeiriadau masnachol ar y radio ei chyhoeddi ynghyd â'r Ymgynghoriad ynghylch yr Adolygiad o'r Côd Darlledu. Gellir gweld hyn yn: http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/bcode09/sextv.pdf a http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/bcode09/radioresearch.pdf.

1.19 Ar ben hynny, roedd y ddogfen Ymgynghori yn egluro bod Ofcom yn ymwybodol y gall agweddau at iaith dramgwyddus newid dros amser. Rydym felly wedi comisiynu ymchwil ar agweddau'r cyhoedd at iaith dramgwyddus er mwyn gweld beth yw'r lefelau a dderbynnir ar hyn o bryd yn y maes hwn ac er mwyn cyfrannu at y ffordd mae Ofcom yn defnyddio'r Côd. Caiff yr ymchwil hon ei chyhoeddi yn 2010.

**Agwedd at asesu'r effaith**

1.20 Nid oedd y ddogfen ymgynghori'n cynnwys dogfen asesiad o'r effaith ar wahân. Yn hytrach, roedd y ddogfen ymgynghori yn ei chyfanrwydd yn asesu effaith y newidiadau arfaethedig ar randdeiliaid (gan gynnwys dinasyddion a defnyddwyr; a darlledwyr radio a theledu). Yng nghyswllt y rheolau arfaethedig ar ddeunyddiau rhywiol a chystadlaethau a phleidleisio, ein hasesiad o'r effaith ar randdeiliaid oedd na fyddai dim newid i agwedd rheoleiddio Ofcom.

1.21 Yn yr un modd, mae'r Datganiad hwn yn ei gyfanrwydd yn rhoi sylw i faterion yng nghyswllt effaith a gafodd eu codi gan randdeiliaid. Lle'r oedd rhanddeiliaid wedi herio asesiad Ofcom o'r effaith (er enghraifft roedd rhai rhanddeiliaid wedi dadlau bod y Rheol 1.19 newydd arfaethedig yn cynyddu'r baich rheoleiddio yng nghyswllt deunyddiau rhywiol cryf, roedd eraill yn dadlau ei fod yn ei leihau) rydym wedi ystyried ein cynigion, eu hailddrafftio pan roedd hynny'n briodol ac rydym wedi darparu canllawiau sy'n cyd-fynd â hynny. Yn dilyn y diwygiadau hyn, rydym yn dal o'r farn nad yw ein hagwedd reoleiddio wedi newid ond bydd yr eglurder a roddir yn y rheolau newydd yn helpu i leihau'r perygl y caiff deunyddiau eu darlledu sy'n torri'r Côd.

1.22 Yng nghyswllt cydraddoldeb (boed hynny yng Ngogledd Iwerddon neu yng ngweddill y DU) gan gynnwys rhyw, anabledd neu ethnigrwydd, roedd y ddogfen ymgynghori'n dadlau na fyddai ein hagwedd at reoleiddio yn newid o ganlyniad i'r rheolau diwygiedig, ac felly nid oeddem o'r farn y byddai gan ein cynigion unrhyw oblygiadau penodol ar gyfer pobl y mae'r ystyriaethau hyn yn berthnasol iddynt. Ni chafodd yr agwedd hon ei herio gan randdeiliad ac fe'i trafodir ym mharagraffau 3.134, 3.141, 4.55 a 4.57 isod.

**Côd Darlledu 2009**

1.23 Fel y trafodir uchod, rydym wedi diweddaru ac wedi adolygu'r Côd sydd ar gael yn http://www.ofcom.org.uk/tv/ifi/codes/bcode/

## Canllawiau

1.24 Fel y trafodir uchod hefyd rydym wedi diweddaru a diwygio'r canllawiau yng nghyswllt y rheolau diwygiedig ar ddeunyddiau rhywiol a chystadlaethau a phleidleisio a ddarlledir (a drafodir yn Rhannau 3 a 4 y ddogfen hon). Mae Canllawiau ar y Côd ar gael yn http://www.ofcom.org.uk/tv/ifi/guidance/bguidance.